# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Gwener, 20 Rhagfyr 2019

Amser: 10.00 am

Lleoliad: Cynghorwyr P Cockeram, G Giles, D Harvey, Councillor R Jeavons, D Mayer, Councillor R Truman, Councillor J Mudd, D Davies and M Rahman

Meirion Rushworth (Head of Finance), Beverly Owen (Strategic Director (Place)), Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Chris Humphrey (Interim Strategic Director - People)

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

4 **Cyllideb Refeniw a MTFP: Cynigion Drafft**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn amlinellu adroddiad y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 i'w ystyried a chytuno arno. Atgoffodd yr Arweinydd ei chydweithwyr yn y Cabinet mai hon yw'r gyllideb ddrafft ac roedd am bwyso ar y cyfarfod y bydd y cynigion a geir yn yr adroddiad yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn cwblhau'r gyllideb yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2020.

Oherwydd bod y setliad grant refeniw drafft wedi'i gyhoeddi'n hwyr, roedd yr adroddiad wedi'i lunio ar dybiaethau cynllunio ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn cyhoeddi ffigur y setliad. Cadarnhaodd yr adroddiad mai'r rhagdybiaethau cynllunio oedd:

- Y byddai Cyngor Dinas Casnewydd yn gweld cynnydd o 1% yn ei setliad grant refeniw a sylfaen dreth gynyddol - sef oddeutu £2.1m;
- Y byddai'r Cyngor hefyd yn cael £5.7m arall o naill ai grantiau parhaol neu barhad grantiau penodol i dalu am gostau cyflogau/pensiynau athrawon a chynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol (cyllid y mae'r Cyngor yn ei dderbyn eleni fel grantiau untro).

Cadarnhaodd y setliad drafft y bydd y Cyngor yn derbyn mwy o arian na'r disgwyl – cyfanswm cyllid pellach o £7.1m. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i naill ai:

(i) fuddsoddi mewn mwy o fuddsoddiadau yn y gyllideb a blaenoriaethau a/neu;

(ii) lleihau/tynnu allan rhai o'r cynigion arbedion a nodwyd yn yr adroddiad.

Bydd grant cynnal refeniw'r Cyngor, mewn termau arian parod, yn cynyddu tua £14m; i gyfanswm o £228m. Ar ôl ystyried grantiau penodol cyfredol a drosglwyddwyd iddo, yn ymwneud yn bennaf â'r grant cyflogau/pensiynau athrawon a grybwyllir uchod, mae'r cynnydd tua £9m.

Mae setliad drafft Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai Casnewydd sydd wedi cael y cynnydd mwyaf o blith holl Gynghorau Cymru - y tro cyntaf i hyn ddigwydd. Bydd pob cyngor yn cael cynnydd cymharol uchel mewn arian grant y flwyddyn nesaf. Mae rhesymau penodol dros hyn:

- Mae'r cynnydd sylweddol yng nghyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru wedi golygu ei fod wedi gallu parhau i fuddsoddi yn y GIG ond nid ar draul rhannau eraill o'r sector cyhoeddus eleni. Felly, roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynyddu cyllideb gyffredinol y setliad grant refeniw tua £200m ar gyfer 2020/21 - i gyfanswm o bron £4.5 bn. Mae hyn wedi bod o fudd i bob cyngor yng Nghymru sy'n derbyn cyfran o hyn. Nid yw'r math hwn o gynnydd wedi digwydd ers blynyddoedd lawer ac mae i'w groesawu'n fawr. Mynegodd yr arweinydd ddiolchiadau'r Cabinet i Lywodraeth Cymru am ystyried sefyllfa Casnewydd a sicrhau'r dyraniad ychwanegol hwn.

- Mae Casnewydd wedi cael setliad gwell eleni gan fod cyllid, fel pob cyngor, yn cael ei bennu gan fformiwla gymhleth sy'n dosbarthu cyfanswm y setliad grant refeniw o £4.5bn i bob cyngor. Data allweddol sy'n 'seiliedig ar anghenion' sydd yn gyrru hynny ac mae'n cynnwys pethau megis niferoedd y boblogaeth, nifer y plant oedran ysgol, nifer y bobl hŷn, ac ati. Eleni, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried rhai newidiadau sylweddol mewn amcangyfrifon poblogaeth a gadarnhaodd fod amcangyfrifon poblogaeth Casnewydd yn rhy isel yn y blynyddoedd blaenorol a bod rhai eraill yn rhy uchel. Mae'r diweddariad a'r ail-osod sail yma, ynghyd â'r cynnydd parhaus yn nifer y disgyblion, wedi 'symud' mwy o'r arian sydd ar gael i gyfeiriad Casnewydd.

Rhoes yr Arweinydd ragor o fanylion am gynigion y gyllideb:

Mae cynghorau yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, gan ddod o alw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol i oedolion ac yn gynyddol, gofal cymdeithasol plant. Daw'r galw hwn yn sgil problemau cymdeithasol ac mae'n effeithio ar bob rhan o Gymru ac yn wir ar y DG; mae gan Gasnewydd yn arbennig hefyd alw cynyddol sy'n deillio o dwf y ddinas. Mae hyn yn creu pwysau gwirioneddol yng ngallu ysgolion Casnewydd a'r gost o gynyddu hynny i ateb y galw am leoedd. Nid oes amheuaeth nad yw cynghorau lleol wedi bod gyda'r amlycaf i orfod wynebu cyni ariannol dros flynyddoedd lawer. Gyda'i gilydd mae'r 'storm berffaith' hon wedi bod yn hynod o heriol.

O fewn y cyd-destun hwn y mae'r weinyddiaeth yn parhau i gynllunio ei rhagamcanion ar gyfer y tymor canolig a'r gyllideb flynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cadarnhaodd yr adroddiad y gost o gynyddu costau cyflogau a chwyddiant anochel sydd, gan gynnwys ysgolion, bron yn £7m. Mae hwn yn ffigur mawr ond, mewn gwirionedd, mae'n sefyllfa ddigyfnewid. Mae'n rhaid ystyried yr angen i ystyried costau cynyddol y galw er mwyn pennu cyllideb realistig, sef cyfanswm o tua £6m; mae gofal cymdeithasol yn gyfrifol am tua £2.2m o'r rhain a'r gost o ehangu ein lleoedd mewn ysgolion yw £ 1.9m. Mae cyfanswm y pwysau o ran costau oddeutu £13m, ac mae pwysau o du'r ysgolion yn £4.38m o hyn.

Roedd yr arweinydd yn falch o gadarnhau nad oes gofyn i ysgolion ddod o hyd i unrhyw arbedion ychwanegol o'r gyllideb hon a'r £4.3m yw swm llawn y cynnydd yn eu costau a gyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae cyllidebau ysgolion o dan gryn straen (fel y maent ar draws Cymru, yn wir, y DG gyfan), a bydd gofyn iddynt barhau i ddelio â'u lefelau

presennol o orwario ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar hynny. Yn hollbwysig, ni fydd y gyllideb hon yn ychwanegu at yr her sy'n wynebu ysgolion. Yn wir, ynghyd â rhai codiadau sylweddol mewn grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a dderbynnnir gan ysgolion, fel y 'grant amddifadedd disgyblion', gallwn ddisgwyl cynnydd pellach hyd yn oed mewn ariannu ysgolion y flwyddyn nesaf.

O ystyried y lefelau hyn o gynnydd mewn costau a phwysau, mae'r angen i ddod o hyd i arbedion yn hollbwysig. Mae rhai arbedion yn cael eu gweithredu gan benaethiaid gwasanaeth o dan awdurdod dirprwyedig tra bod eraill, y rhai ag effeithiau polisi a gwasanaeth, yn rhai i'r Cabinet hwn eu cymeradwyo yn gyntaf. Mae'r angen am ymgynghori cyhoeddus priodol wedi'i adolygu ar gyfer pob cynnig, a phan fo angen, bydd hynny'n digwydd yn gyntaf, ni waeth ymhle y gwneir y penderfyniadau.

Rhestrir ychydig dros £5m o arbedion newydd yn yr adroddiad, y mae tua 50% ohonynt yn cael eu gweithredu gan benaethiaid gwasanaeth ac yn cael eu penderfynu gan y Cabinet. O ran ymgynghori, mae Atodiad 2 yn rhestru'r cynigion hynny ar gyfer ymgynghoriad, ac mae manylion ar gyfer pob un o'r cynigion yn Atodiad 5.

Gofynnodd yr arweinydd i'w chydweithwyr yn y Cabinet ystyried cymeradwyo'r rhain i ymgynghori arnynt ar unwaith. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn eang, yn fewnol yn y Cyngor, drwy'r pwyllgor craffu, y fforwm ysgolion ac ati, ac yn allanol gyda'r cyhoedd a'r Comisiwn tegwch a rhanddeiliaid allweddol. Anogodd yr arweinydd y cyhoedd a'r holl bartneriaid i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Yn amlwg, mae gan y Cabinet rai dewisiadau gwirioneddol eleni o ystyried y setliad gwell, fodd bynnag, ni chymerir unrhyw benderfyniad heddiw, gan mai'r rhesymau yw:

- Dim ond ddydd Llun y cawsom y setliad ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau ein bod yn deall pob agwedd arno, yn enwedig y grantiau penodol, yr ydym yn dal i aros am ragor o fanylion.
- Mae angen inni fynd ati mewn ffordd ystyriol a strategol, ac edrych ymlaen at y tymor canolig o ran sut yr ydym yn delio â hyn. Mae hyn yn gofyn am amser a meddwl yn ofalus.
- Rydym am gael ein llywio gan ein rhanddeiliaid allweddol, y cyhoedd yn arbennig ac eraill cyn i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Byddwn felly yn ymgynghori ar yr holl gynigion ac yn ystyried yr ymatebion yn ofalus, gan fynd ati mewn ffordd strategol a thymor hir, gan wneud y penderfyniadau terfynol ar gynigion, gan gynnwys y Dreth Gyngor, yng nghyfarfod mis Chwefror.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y cynhelir ymgynghoriad ar gynnydd o 7.95% yn y Dreth Gyngor. Soniodd yr arweinydd am ychydig o ffeithiau allweddol a oedd yn rhoi rhywfaint o gyd-destun pwysig i hyn:

- Nid y cynnydd canrannol yw'r ffordd orau o feddwl am y peth. Mae tua dwy ran o dair o'r cartrefi yng Nghasnewydd ym mandiau a-C ac mae'r cynnydd, o ran arian parod, rhwng £1.14 a £1.52 yr wythnos. Mae'n gynnydd ond mewn termau arian yn fwy cymedrol nag y gallai'r ganran ei awgrymu.
- Er bod y Dreth Gyngor yn rhan gymharol fach o gyllid cyffredinol y Cyngor ac yn achosi ei phroblemau ei hun, ni ellir ei hanwybyddu ychwaith. Mae lefel treth Casnewydd yn gymharol isel o'i chymharu ag eraill yng Nghymru ac yn wir, yn y DG. Pe bai Casnewydd ar lefel cyfartaledd Cymru - byddai gan y Cyngor £10m yn fwy o gyllid, er enghraifft. Ar ôl blynyddoedd lawer o galedi a chynnydd yn y galw gan y ddinas sy'n tyfu, ni ellir anwybyddu'r ffaith hon gan fod opsiynau i wneud toriadau sylweddol pellach mewn cyllidebau yn dod yn fwyfwy heriol o ran yr effeithiau a'r risgiau cynyddol a ddeuai ohonynt.

- Mae angen ystyried y cynnydd hwn yng nghyd-destun y gyllideb gyffredinol. Nid dim ond drwy gynyddu'r dreth gyngor y mae her y gyllideb yn cael ei datrys. Mae yna arbedion hefyd ac rydym wedi ceisio canfod cydbwysedd o ran ymdrin â'r her gyllidebol drwy gyfuniad o'r dreth gyngor ac arbedion yn y gyllideb.
- Mae'r cynnydd yn fuddsoddiad mewn gwasanaethau. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i lefel y buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol ac ysgolion.
- Y Dreth Gyngor yw unig ffynhonnell incwm y Cyngor y mae ganddi reolaeth uniongyrchol drosti.
- Wrth ddosbarthu'r setliad grant refeniw, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud tybiaeth o blaid 'lefel safonol o dreth gyngor' pan fydd yn cyfrifo'r asesiad o wariant safonol ar gyfer Cynghorau. Mae'r lefel treth gyngor safonol hwnnw wedi cynyddu 7% yn unig ar gyfer 2020/21. Bydd Casnewydd yn disgyn ymhellach y tu ôl i'w hasesiad gwariant safonol na'r lefelau presennol os bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yn is na hyn.
- Yn olaf, pwysleisiodd yr arweinydd y bydd y gefnogaeth i dalu'r Bil hwn, drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ar gael o hyd i helpu'r rhai sy'n gymwys i gael gostyngiadau yn eu biliau. Bydd cyllideb y Cyngor ar gyfer hyn yn cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ac yn darparu ar gyfer yr un lefel o gymorth ag sydd eisoes ar gael.

Er bod y setliad gwell yn caniatáu ar gyfer rhai dewisiadau, roedd yr Arweinydd yn gobeithio y byddai'r preswylwyr yn gweld cynydd y Dreth Gyngor a rwyfaint o bersbectif ac yn cymryd golwg ehangach a mwy hirdymor. Bydd gan Gasnewydd un o'r lefelau Treth Gyngor isaf yng Nghymru a'r DG o hyd.

Croesawodd yr arweinydd sylwadau gan ei chydweithwyr yn y Cabinet a chymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer ymgynghori pellach gan wybod bod yna rywfaint o hyblygrwydd y mae gofyn ei ystyried yn ofalus iawn.

Ailadroddodd cydweithwyr yn y Cabinet sylwadau'r Arweinydd ac anogodd y cyhoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid i ymgysylltu â'r broses ymgynghori ar y gyllideb.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y cynigion drafft a gynhwyswyd yn yr adroddiad a fydd bellach yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu'n derfynol ar y gyllideb ym mis Chwefror 2020.

5 **Adroddiad 6 Mis Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a roes adolygiad o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor, h.y. rheoli a chynllunio ei 'adnoddau ariannol', gan gynnwys gweithgareddau benthyca a buddsoddi, ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

Roedd yr adroddiad eisoes wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Archwilio, a'i adrodd i'r Cabinet er gwybodaeth; yn dilyn cyfarfod y Cabinet Byddai'n mynd i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo.

Roedd yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau a gyflawnwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn rhai disgwyliedig ac o fewn terfynau cytunedig y Cyngor.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Ail-ariannwyd Bond £40m y Cyngor ym mis Ebrill - arbedodd hyn swm sylweddol iawn o arian i'r Cyngor a gymerwyd fel arbediad yng nghyllideb eleni, gan fod y gyfradd llog ar y benthyciad a gymerwyd yn sylweddol is na'r llog a dalwyd ar y bond. Roedd strategaeth 'benthyca mewnol' y Cyngor yn golygu bod yn rhaid ail-ariannu hwn yn hytrach na'i ad-dalu ac ar hyn o bryd mae'r strategaeth hon yn arbed dros £2m i'r

Cyngor bob blwyddyn mewn taliadau llog, nodwyd y bydd gallu'r Cyngor i allu benthyg yn fewnol yn lleihau mewn perthynas â gwariant PFI a chronfeydd wrth gefn eraill yn y dyfodol.

- Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor yn benthyca arian gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – y Llywodraeth yn y bôn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd cynnydd digynsail o 1% mewn cyfraddau llog. Mae'r Pennaeth Cyllid a'r tîm cyllid yn adolygu'r opsiynau gydag ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor ar ddewisiadau benthyca eraill a bydd hyn yn cael ei adrodd mewn adroddiadau yn y dyfodol yn ôl y gofyn.

**Penderfyniad:**

Nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a chytunwyd i gynnig sylwadau i'r Cyngor.

6 **Diweddariad Cofrestr Risg Gorfforaethol (Chwarter 2)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer diwedd chwarter 2 (30 Medi 2019).

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r newidiadau i'r gofrestr risg ar gyfer diwedd chwarter 1.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Strategaeth Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a swyddogion i nodi, rheoli a monitro'n effeithiol y risgiau hynny a allai atal yr awdurdod rhag cyflawni'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2017/22 a'i Ddyletswyddau Statudol fel awdurdod lleol.

Eglurodd yr adroddiad ymhellach ar gyfer bob blwyddyn, fel rhan o drefniadau cynllunio'r Cyngor, fod gwasanaethau yn adolygu eu risgiau presennol ac yn edrych ymlaen at risgiau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg a fyddai'n atal y weinyddiaeth rhag cyflawni ei hamcanion fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

Bydd adroddiad risg Chwarter 2 yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Ionawr 2020; Y Pwyllgor Archwilio sy'n adolygu ac yn monitro'r trefniadau rheoli risg a llywodraethiant.

Mae'r adroddiad yn nodi bod 12 o'r risgiau wedi'u codi i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor sy'n gofyn am fonitro gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain.

Bydd y risgiau sy'n weddill yn parhau i gael eu monitro gan y gwasanaethau a Thîm Corfforaethol y Cyngor. Mae mecanweithiau ar waith i uwchgyfeirio unrhyw risg newydd neu bresennol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ar ddiwedd Chwarter 1 (1 Gorff 2019 i 30 Medi 2019) roedd gan y Cyngor 9 risg uchel (15 i 25) a 3 risg ganolig (5 i 14). O'i gymharu â chwarter 1, nid oedd unrhyw risgiau newydd ac ni chaewyd unrhyw risgiau. Fodd bynnag, roedd 2 risg wedi cynyddu o lefel Ganolig i Uchel. Dyma'r sgoriau o ran risgiau a welodd gynnydd:

- **Y galw am gymorth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac anghenion addysgol arbennig (AAA) (cynyddodd y sgôr risg o 12 i 20)**

    - Mae'r risg hon yn ymwneud â chyflwyno deddfwriaeth newydd a'r pethau nad sy'n hysbys yn ymwneud â'r effaith bosibl ar wasanaethau addysg a chymorth ysgol yn y ddinas.

- Adolygwyd modelau cyllido ADY mewn gweithgor awdurdod lleol a phennaeth yn ystod chwarter 2. Roedd yn amlwg, o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth ysgolion yn gyffredinol, y bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y cyllid ADY presennol.

- Mae yna ddisgwyliad y bydd ysgolion yn ategu'r cyllid ADY a ddyrannwyd iddynt, fodd bynnag, o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion sydd â datganiad a’r rhai a gyllidwyd, nid yw'r cyllid ADY fesul disgybl yn adlewyrchu'r swm sydd ei angen.

- Cytunwyd ar fodel ariannu un flwyddyn gyda rhagor o gyfarfodydd i'w cynnal yn ystod haf 2020 i ddatblygu model ariannu hirdymor.

- **Rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn (sgôr risg wedi cynyddu o 8 i 12)**

  - Ar ddiwedd mis Medi, mae Gwasanaeth Cyllid y Cyngor yn dangos gorwariant rhagamcanol o £700k.

  - Er y bydd effaith gorwariant yn ystod y flwyddyn yn cael effaith andwyol ar lefel y cronfeydd wrth gefn, nid yw'n rhywbeth na allai'r Cyngor ei ysgwyddo yn y tymor byr.

  - Bydd angen rheoli'r gorwariant hwn, sy'n parhau yn y tymor canolig, er mwyn atal effaith ar wydnwch ariannol y sefydliad.

  - Bydd angen cymryd camau priodol er mwyn rheoli'r gorwariant hwn; Fodd bynnag, mae risg yn parhau bod y galw am a chost gwasanaethau yn parhau i gynyddu mwy nag a ragwelwyd ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet gytuno ar gynnwys Adroddiad Risg Chwarter 2 a pharhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd i leihau effaith y risgiau yn yr adroddiad.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyodd y Cabinet gynnwys Adroddiad Risg Chwarter 2 a chytunodd i barhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd i leihau effaith y risgiau a geir yn yr adroddiad.

7 **Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o'r Dystysgrif Perfformiad**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn cadarnhau mai dyma'r ail dystysgrif gydymffurfio a gyhoeddir gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn dilyn archwiliad o berfformiad y Cyngor yn 2018/19yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol y Cyngor ac mae dyletswydd arnynt i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus, megis Cyngor Casnewydd, y trefniadau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r gwaith a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymgymryd â datblygiadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol a chydymffurfio â'r egwyddor o bum ffordd o weithio.

Croesawodd yr Arweinydd Gareth Jones, Swyddog Arweiniol yr Archwiliad, i'r cyfarfod. Rhoddodd Mr Jones drosolwg o'r gwaith sydd ei angen ar y Cyngor i dderbyn yr ail dystysgrif gydymffurfio a chadarnhaodd bod y gofynion wedi'u bodloni a bod y dystysgrif wedi'i rhoi.

Diolchodd yr Arweinydd i SAC unwaith eto am ei dull o weithio mewn partneriaeth a gweithio gyda Chyngor DInas Casnewydd.

Cynigiodd yr Arweinydd fod y Cabinet yn derbyn y casgliad sydd yn Mhystysgrif Asesu Perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**Penderfyniad:**

Derbyniodd y Cabinet y casgliad a geir yn Nhystysgrif Asesu Perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol.

8 **Rheolau Sefydlog Contract Diwygiedig**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n nodi cynigion i ddiweddaru a gwneud newidiadau i Reolau Sefydlog Contract y Cyngor. Bydd y Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniad terfynol ar yr adroddiad ond mae angen barn y Cabinet cyn ei gwblhau a'i anfon i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Mae Rheolau Sefydlog Contract (RhSC) yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor ac maent yn rheolau ar gyfer prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith y mae'n rhaid i bob gweithiwr lynu wrthynt.

Cadarnhaodd yr adroddiad ei bod yn ofynnol adolygu'r RhSC bob tair blynedd er mwyn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth, polisi a chyfeiriad strategol y Cyngor, yn ogystal â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru y mae angen ei ymgorffori i reolau'r Cyngor. Mae'r RhSC arfaethedig, a atodwyd i'r adroddiad, yn cyflwyno newidiadau wedi'u cynllunio i wella arferion caffael y cyngor a sicrhau bod deddfwriaeth sy'n newid, ac arferion polisi a chaffael eraill y Cyngor yn cael eu dilyn.

Cynhaliwyd yr adolygiad drwy ymgynghori â Phennaeth y Gyfraith & Rheoleiddio, y Pennaeth Cyllid a'r Prif Archwilydd Mewnol, yn ogystal â'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw, gwnaed newidiadau allweddol mewn nifer o feysydd, a hynny'n fwyaf amlwg o ran;

1. Cydymffurfio - adran newydd yn ymdrin â chyfrifoldebau yn ymwneud â chywirdeb, safonau, cydymffurfio â rheoliadau a Chodau Ymddygiad.

2. Gwasanaethau Cymdeithasol - adran newydd sy'n cwmpasu contractau gwasanaeth unigol ar gyfer cleientiaid y gellir eu dyfarnu o dan gyfres o amgylchiadau penodol ym maes Gofal Cymdeithasol.

3. Proses Dendro ar gyfer Caffael - yn arbennig mwy o hyblygrwydd i allu mynd at gyflenwyr lleol a chyflenwyr eraill yng Nghymru am dendrau hyd at £75k mewn gwerth, cynnydd o'r £25k presennol.

4. Cod Ymarfer, Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi - adran newydd yn ymdrin ag ymrwymiad y Cyngor i ystyried ystod o gamau i sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi mewnol ac allanol yn gweithredu o dan arferion cyflogaeth cyfreithiol a moesegol.

5. Rheoli Contractau -adran newydd i gwmpasu sut y dylid rheoli contractau ar ôl dyfarnu contractau o'r fath, er mwyn sicrhau bod y contract yn parhau i fod yn effeithiol o ran cyflawni ei allbynnau gofynnol am ei gyfnod llawn.

6. Eithriadau - adran newydd i sicrhau bod swyddogion yn deall y broses os tybir bod angen gwneud cais i RhSC gael eu heithrio o dan amgylchiadau penodol.

Roedd yr adroddiad yn cadarnhau ymhellach bwysigrwydd bod prosesau a rheolau'r Cyngor yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf sy'n effeithio ar awdurdodau lleol; cyfeiriodd yr Arweinydd yn benodol at gadarnhad bod y Cyngor yn ymgorffori diweddariadau pwysig megis cyflogaeth foesegol yn ei chadwyni cyflenwi a'r broses newid sy'n ei gwneud yn haws cynnwys cyflenwyr lleol a chyflenwyr Cymreig, tra'n parhau i sicrhau gwerth am arian o ran sut mae'r Cyngor yn prynu ei nwyddau a'i wasanaethau.

Cymeradwyodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet a hefyd bod RhSC diwygiedig yn cael eu hadrodd i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad a'i fod i gael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

9 **Adroddiad Blynddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan gadarnhau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Rh+A) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (GCLl) yn nodi'r gofyniad i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi perfformiad y Ggwasanaethau Cymdeithasol.

Nid bwriad yr adroddiad yw manylu ar y broses ond darparu gwybodaeth i'w chyhoeddi i gynulleidfa eang. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r flwyddyn 2018/19 ac yn nodi asesiad y Cyfarwyddwr o ba mor dda y mae'r Cyngor wedi hyrwyddo a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddinasyddion a gofalwyr Casnewydd sydd angen gofal a chymorth.

Cyflwynodd yr arweinydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i drafod rhai o benawdau'r adroddiad er mwyn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar a'r gwaith sy'n ymwneud ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol i adeiladu capasiti ychwanegol y mae ei angen yn fawr.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o'r adroddiad a dynnodd sylw at lawer o fentrau cadarnhaol a wnaed gan Gasnewydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gofynnodd yr Arweinydd i Gyfarwyddwr presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Chris Humphrey, am ei meddyliau. Cadarnhaodd Mrs Humphrey fod yr adroddiad yn dangos y siwrnai barhaus y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod arni dros y blynyddoedd diwethaf. Canmolodd y perfformiad gan yr holl staff sy'n adlewyrchu llawer iawn o waith caled sydd wedi'i wneud.

Canmolodd Aelodau'r Cabinet waith caled yr holl staff.

Cymeradwyodd y Prif Weithredwr dros dro y gwaith cydweithredol a wnaed gydag Addysg ac Iechyd i sicrhau gwasanaethau cydgysylltiedig i wneud bywydau'n well i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet am yr arweinyddiaeth a ddangoswyd yn y rôl hon a phwysleisiodd yr arweinydd yr amgylchiadau anodd a heriol y mae pobl yn eu cael eu hunain ynddynt, mae cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio yn y rheng flaen o safbwynt hyn.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod wedi mynychu parti Nadolig y Plant sy'n Derbyn Gofal; llongyfarchodd y staff, a phob un ohonyn nhw'n dangos cymaint o empathi a thosturi fel hyn yn y gwaith y maen nhw'n ei wneud.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad.

10 **Rhaglen Waith**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen wedi’i diweddaru.